Fersiwn	6
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Mehefin 2023



Iechyd a Diogelwch 21

Polisi Offer Gwaith

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	**Polisi Offer Gwaith**
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 425524
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	
Swyddog Adolygu	Stephen Humphreys
Dyddiad Diwygio	Mehefin 2025
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mawrth 2010	Mike Murphy
Awst 2016	Mike Murphy
Awst 2018	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy
Mehefin 2023	Stephen Humphreys
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Carfan Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	
Y Cabinet	

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 1
2. Datganiad Polisi 1

Canllawiau Polisi

3. Beth yw Offer Gwaith? 3
4. Beth Sydd Ddim yn Cael eu Dosbarthu fel Offer Gwaith? 3
5. Beth Sydd Angen ei Wneud? 3
6. Pa Beryglon Sy'n Deillio o'r Defnydd o Offer Gwaith? 4
7. Beth Gall Rheolwyr ei Wneud i Leihau'r Risg? 5
8. Beth Ddylai Cyflogeion ei Wneud i Leihau'r Risg? 9
9. Beth Mae'r Rhagofalon yn ei Olygu yn Ymarferol? 10
10. Cyngor 12

Atodiad A - Peryglon Arferol o Offer Gwaith a Rhagofalon i'w Cymryd 13
Atodiad B - Rhestr Wirio ar gyfer Prynu / Llogi Offer 15
Rhestr Wirio i Reolwyr 17

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad polisi yma wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau'r Ddarpariaeth a'r Defnydd o Offer Gwaith (PUWER)

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddethol, gosod a defnyddio offer gwaith er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch defnyddwyr a staff cynnal a chadw.

2.2 Defnyddir asesiadau risg er mwyn sicrhau bod y peryglon tebygol sy'n gysylltiedig â'r offer gwaith yn cael eu nodi a bod unrhyw risg a ganfyddir yn cael ei reoli'n addas, er enghraifft, trwy ddileu'r risg neu weithredu systemau gwaith diogel.

2.3 Bydd yn ofynnol i'r holl gyflogeion gadw at unrhyw reolau'n ymwneud ag awdurdodaeth ar gyfer defnyddio neu gynnal a chadw offer, ac i roi gwybod am unrhyw namau y maen nhw'n eu canfod gydag unrhyw offer cyn gynted â phosibl. Os yw'r nam hwnnw'n debygol o achosi anaf, mae'n ofynnol ar y cyflogai i roi'r gorau i'w ddefnyddio, cymryd yr offer allan o wasanaeth a rhoi gwybod i'r rheolwr priodol.

2.4 Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yr holl gyflogeion sydd yn defnyddio'r offer gwaith, a'r rheiny sydd yn goruchwylio neu'n rheoli'r defnydd o'r offer gwaith, yn cael hyfforddiant digonol ac yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw faterion y bydd eu defnyddio yn eu cynnwys, yn cynnwys y rhagofalon i'w cymryd. Caiff hyfforddiant digonol i'r perwyl hwn ei bennu gan natur gofynion y swydd a'r offer gwaith ei hun.

2.5 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl gyflogeion sy'n defnyddio'r offer gwaith, yn cynnwys y rheiny sydd yn goruchwylio neu'n rheoli'r defnydd o offer gwaith, yn cael gwybodaeth iechyd a diogelwch digonol a, lle y bo'n berthnasol, cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar yr amodau a'r dulliau ar gyfer defnyddio'r offer gwaith, unrhyw sefyllfaoedd afreolaidd y gellir eu rhagweld sy'n debygol o ddigwydd a'r camau i'w cymryd pe byddai sefyllfa o'r fath yn digwydd, ac unrhyw gasgliadau yn sgil profiad yn defnyddio'r offer gwaith.

2.6 Bydd holl eitemau'r offer gwaith wedi eu dylunio, eu gosod a'u cynnal a'u cadw'n addas ar gyfer diogelwch.

2.8 Ynghlwm wrth y polisi yma, mae canllawiau i reolwyr, a fydd o gymorth wrth gydymffurfio â'r polisi.

Ynghlwm wrth Atodiad A ceir rhestr o risgiau arferol sy'n gysylltiedig ag eitemau offer gwahanol a'r trefniadau priodol ar gyfer diogelwch cyflogeion sy'n eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw. Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr ac fe'i defnyddir fel canllaw yn unig.

Ynghlwm wrth Atodiad B ceir rhestr wirio ar gyfer prynu/llogi offer.

2.8 Y Cyfarwyddwyr neu'r Penaethiaid Gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi yma ar waith ac am baratoi strategaeth gweithredu.

CANLLAWIAU POLISI

3. BETH YW OFFER GWAITH?

3.1 Mae cwmpas yr offer gwaith yn eang iawn. Mae'n cwmpasu bron unrhyw offer a ddefnyddir yn y gwaith, gan gynnwys:

- 'offer blwch offer' fel morthwylion, cyllyll, llifau llaw, bwyeill cig ac ati;
- peiriannau unigol fel peiriannau drilio, llifau cylch, llungopiwyr, lorïau dadlwytho, peiriannau torri gwair ac ati;
- cyfarpar fel cyfarpar labordy (Llosgwyr Bunsen, ac ati);
- offer codi fel peiriannau codi, llwyfannau gwaith sydd yn codi, slingiau codi ac ati;
- offer arall fel ysgolion, glanhawyr pwysedd dŵr, ac ati;

4. BETH SYDD DDIM YN CAEL EU DOSBARTHU FEL OFFER GWAITH?

4.1 Nid yw'r canlynol yn cael eu dosbarthu fel offer gwaith:

- da byw;
- sylweddau (er enghraifft, asidau, alcalïau, biswail, sment, dŵr);
- eitemau strwythurol (er enghraifft, muriau, grisiau, to, ffensys);
- ceir preifat.

5. BETH SYDD ANGEN EI WNEUD?

5.1 Dylai rheolwyr:

- edrych ar yr offer gwaith sy'n cael ei ddefnyddio, penderfynu beth all achosi niwed, a sut;
- edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i atal niwed, a gweld a yw hyn yn cael ei wneud neu beidio;
- penderfynu a oes angen gwneud rhagor neu beidio;
- yna gwnewch hynny!

6. PA BERYGLON SY'N DEILLIO O'R DEFNYDD O OFFER GWAITH?

6.1 Gall llawer o bethau gynyddu'r perygl o niwed, er enghraifft:

- defnyddio'r offer anghywir ar gyfer y gwaith, e.e. ysgolion yn lle tyrrau mynediad ar gyfer gwaith ar lefel uchel;
- diffyg amddiffyniadau neu amddiffyniadau gwael ar beiriannau, sydd yn arwain at ddamweiniau a achosir gan glymau, llafnu, gwasgu, caethiwo, torri ac ati;
- cael rheolyddion annigonol neu'r math anghywir o reolyddion fel nad oes modd diffodd offer yn gyflym ac yn ddiogel, neu mae'n dechrau'n ddamweiniol;
- methu cynnal a chadw amddiffyniadau, dyfeisiadau diogelwch, rheolyddion ac ati yn gywir ac mae'r peiriannau neu'r offer yn mynd yn anniogel;
- methu darparu'r wybodaeth gywir, y cyfarwyddiadau a'r hyfforddiant ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio'r offer.

6.2 Wrth nodi'r peryglon, meddyliwch am:

- yr holl waith y mae'n rhaid ei wneud gyda'r peiriant a'r offer arall wrth ei ddefnyddio fel arfer, a hefyd wrth ei sefydlu, gwneud gwaith cynnal a chadw, atgyweirio, torri i lawr a symud rhwystrau;
- pwy fydd yn defnyddio'r offer, yn cynnwys gweithwyr profiadol wedi eu hyfforddi'n dda, a hefyd dechreuwyr newydd, pobl sydd wedi newid swyddi yn y Cyngor neu'r rheiny all fod ag anawsterau penodol, e.e. nam symudedd;
- gweithwyr a allai weithredu'n ffôl neu'n ddiofal neu wneud camgymeriadau;
- a yw amddiffyniadau neu ddyfeisiadau diogelwch wedi eu dylunio'n wael neu'n anghyfleus i'w defnyddio neu'n cael eu gorchfygu'n hawdd (gallai hyn annog gweithwyr i beryglu cael eu hanafu);
- y math o gyflenwad pŵer, e.e. trydanol, hydrolig neu niwmatig – mae risg gwahanol i bob un.

7. BETH GALL RHEOLWYR EI WNEUD I LEIHAU'R RISG?

7.1 Dylai rheolwyr sicrhau bod yr offer cywir ar gyfer gwneud y gwaith ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.

Mae llawer o ddamweiniau'n digwydd oherwydd methiant i ddewis yr offer cywir ar gyfer y gwaith i gael ei wneud. Mae rheoli'r risg yn aml yn golygu cynllunio ymlaen llaw a sicrhau bod offer neu beiriannau addas ar gael.

7.2 Dylai rheolwyr sicrhau bod offer yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gall llawer o beiriannau, rhannau o beiriannau neu rannau o offer gwaith achosi anaf i unrhyw un sy'n eu defnyddio. Ceisiwch sicrhau bob amser bod y rhain yn ddiogel trwy ddileu ffynhonnell y niwed yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, anaml y mae hyn yn bosibl ac felly, yn lle hynny, mae'n rhaid rheoli risg.

Mae rheoli'r risg yn aml yn golygu diogelu'r rhannau o'r peiriannau a'r offer a allai achosi anaf. Dyma'r pwyntiau i'w cofio:

- dylid defnyddio amddiffyniadau sefydlog lle bynnag y bo'n bosibl, a dylen nhw gael eu gosod yn eu lle gyda sgriwiau neu nytiau a bolltau y mae angen offer i'w tynnu;
- os oes angen mynediad rheolaidd ar gyflogeion i rannau o'r peiriant ac nad yw amddiffyniad sefydlog yn bosibl, defnyddiwch amddiffyniad wedi ei gyd-gloi ar gyfer y rhannau hynny. Bydd hyn yn sicrhau nad oes modd i'r peiriant ddechrau cyn bod yr amddiffyniad yn cael ei gau ac y bydd yn aros os caiff yr amddiffyniad hwn ei agor tra bod y peiriant yn symud;
- mewn rhai achosion, e.e. ar gilotinau, mae modd defnyddio dyfeisiadau fel systemau ffotodrydanol neu amddiffyniadau awtomatig yn lle amddiffyniadau sefydlog neu wedi eu cyd-gloi;
- gwiriwch bod yr amddiffyniadau yn gyfleus i'w defnyddio ac nad ydynt yn hawdd i'w goresgyn, neu gall fod angen eu haddasu;
- meddyliwch am y deunyddiau gorau ar gyfer yr amddiffyniadau – gall plastig fod yn hawdd gweld trwyddo, ond mae modd ei grafu neu ei niweidio'n hawdd. Os defnyddir deunydd rhwyll wifrog neu ddeunyddiau tebyg, gwnewch yn siŵr nad yw'r tyllau'n ddigon mawr i ganiatáu mynediad i'r ardal beryglus. Yn ogystal ag atal mynediad o'r fath, mae modd hefyd defnyddio amddiffyniad i atal hylifau niweidiol, llwch ac ati, rhag dod allan;

- sicrhewch bod yr amddiffyniadau'n galluogi'r peiriant i gael ei lanhau'n ddiogel;
- os nad oes modd i'r amddiffyniadau roi diogelwch llawn, defnyddiwch jigiau, dalwyr, ffyn gwthio ac ati, i symud y darn o waith.

7.3 Mae modd lleihau rhai risgiau trwy ddethol yn ofalus a gosod y rheolyddion ar gyfer peiriannau ac offer, er enghraifft:

- rhoi rheolyddion 'dal i redeg' a/neu ddau reolydd llaw pellter diogel o'r ardal beryglus;
- sicrhau bod switshis rheoli wedi eu nodi'n glir i ddangos yr hyn y maen nhw'n ei wneud;
- sicrhau bod y rheolyddion gweithredu wedi eu dylunio a'u lleoli er mwyn osgoi eu gweithredu'n ddamweiniol, e.e. trwy orchuddio botymau a phedalau cychwyn;
- gall systemau allweddi wedi eu cyd-gloi neu eu dal ar gyfer amddiffyniadau fod yn angenrheidiol i atal gweithredwyr a gweithwyr cynnal a chadw rhag mynd i mewn i'r ardaloedd peryglus cyn i'r peiriant ddiffodd;
- lle y bo'n briodol, gosodwch rheolyddion diffodd mewn argyfwng o fewn cyrraedd hawdd, yn arbennig ar beiriannau mwy er mwyn gallu eu gweithredu'n gyflym mewn argyfwng.

Nodwch: Cyn gosod rheolyddion diffodd mewn argyfwng i beiriannau lle **nad** oedden nhw wedi'u gosod yn flaenorol, mae'n hanfodol gwirio na fyddan nhw eu hunain yn arwain at risg. Er enghraifft, mae angen i'r cyflenwad pŵer fod yn weithredol ar rai peiriannau i weithredu'r brêc. Gellid colli'r pŵer yma pe byddai'r peiriant yn cael ei ddiffodd gan ddefnyddio'r rheolydd diffodd mewn argyfwng.

7.4 Sicrhewch bod offer llaw yn ddiogel.

Mae modd rheoli llawer o risgiau trwy sicrhau bod offer llaw yn cael eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw'n iawn, er enghraifft:

- **morthwylion** – dylech osgoi coesau wedi hollti, wedi torri neu rydd a phennau wedi treulio neu dolcio. Dylai'r pennau fod wedi eu cysylltu'n iawn â'r coesau;
- **ffeiliau** – dylai fod gan y rhain ddolen gywir. Peidiwch byth â'u defnyddio fel liferau;

- **cynion** – dylid hogi'r ochr sy'n torri i'r ongl gywir. Peidiwch â gadael i ben cynion oer ledaenu i fod siâp madarch – melinwch yr ochrau yn rheolaidd;

- **tyrnsgriwiau** – peidiwch byth â'u defnyddio fel cynion, a pheidiwch byth defnyddio morthwylion arnynt. Mae dolenni wedi hollti yn beryglus;

- **sbaneri** – dylech osgoi genau agored Taflwch unrhyw rai sy'n dangos arwyddion o lithro. Sicrhewch fod gennych ddigon o sbaneri o'r maint cywir. Peidiwch addasu trwy ddefnyddio pibau, ac ati, fel dolenni estynedig.

7.5 Sicrhewch fod y peiriannau a'r offer yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel.

Mae rheoli'r risg yn aml yn golygu gwneud gwiriadau ataliol a chynnal a chadw, er enghraifft:

- gwirio'r hyn y mae cyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr yn ei ddweud am gynnal a chadw a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud lle bo angen;

- gall gwiriadau dyddiol ac wythnosol fel mater o drefn fod yn angenrheidiol, e.e. lefelau hylif, pwysedd, gweithrediad y brêc. Pan fyddwch chi'n ffurfio contract i logi offer, yn arbennig un hirdymor, bydd angen i chi sefydlu pa waith cynnal a chadw fel mater o drefn sydd ei angen a phwy fydd yn gwneud hyn;

- bydd angen gwaith cynnal a chadw ataliol ar rai offer, e.e. craen, h.y. ei wasanaethu fel nad yw'n torri i lawr;

- dylai offer fel lifftiau, craeniau, systemau pwysedd a gwasgfeydd pŵer gael archwiliad manwl gan berson cymwys ar gyfnodau a nodir yn gyfreithiol;

- sicrhewch bod amddiffyniadau a dyfeisiadau diogelwch eraill (e.e., systemau ffotodrydanol) yn cael eu gwirio'n rheolaidd ac yn gweithio'n dda. Dylen nhw hefyd gael eu gwirio ar ôl unrhyw atgyweiriadau neu addasiadau.

7.6 Gwneud gwaith cynnal a chadw yn ddiogel.

Mae llawer o ddamweiniau'n digwydd yn ystod gwaith cynnal a chadw. Mae rheoli'r risg yn golygu dilyn arferion gwaith diogel, er enghraifft:

- dylai gwaith cynnal a chadw gael ei wneud lle y bo'n bosibl gyda phŵer y peiriant wedi ei ddiffodd, ac yn ddelfrydol wedi ei ddadgysylltu gyda'r

ffiwsiau neu'r allweddi wedi eu tynnu oddi yno, yn arbennig pan fydd angen mynediad i fannau peryglus;

- ynysu'r offer a'r piblinellau yn cynnwys hylif, nwy, stêm neu ddeunydd peryglus dan wasgedd. Dylid cloi falfiau ynysu a datgywasgu'r system lle y bo'n bosibl, yn arbennig pan fydd angen mynediad i rannau peryglus;
- cefnogi rhannau o offer a allai syrthio;
- galluogi offer sydd yn symud i aros;
- rhoi amser i gydrannau sy'n gweithredu ar dymheredd uchel oeri;
- troi peiriant offer symudol i ffwrdd, rhoi'r gerflwch yn niwtral, gweithredu'r brêc a, lle bo angen, pacio'r olwynion;
- i atal tân neu ffrwydradau, glanhau llestri sydd wedi cynnwys solidau, hylifau, nwyon neu lwch fflamadwy yn drwyadl a'u gwirio cyn bod gwaith poeth yn cael ei wneud. Gall meintiau bach o ddeunydd fflamadwy greu digon o anwedd i greu cymysgedd aer ffrwydrol, a allai gael ei gynnau gan lamp law neu ffagl dorri/weldio.

7.7 Cyfarwyddo a hyfforddi cyflogeion.

Sicrhewch bod gan gyflogeion yr wybodaeth angenrheidiol i ddefnyddio a chynnal offer yn ddiogel, er enghraifft:

- rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw, e.e., cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr, llawlyfrau gweithredu;
- eu cyfarwyddo ynghylch sut i osgoi peryglon, e.e. gwirio nad yw'r gyriant wedi ei weithredu cyn dechrau'r injan/peiriant a pheidio'i ddefnyddio ar dir sydd ar ogwydd;
- gall fod angen rhywfaint o gyfarwyddyd ar gyflogai dibrofiad ynghylch sut i ddefnyddio offer llaw yn ddiogel;
- yn ogystal â chyfarwyddyd, bydd hyfforddiant priodol yn angenrheidiol yn aml, yn arbennig os yw rheoli'r risg yn dibynnu sut mae cyflogai yn defnyddio'r offer gwaith.

Gall fod angen hyfforddiant ar gyfer cyflogeion presennol yn ogystal â chyflogeion dibrofiad neu ddechreuwyr newydd (peidiwch anghofio cyflogeion dros dro), yn arbennig os oes rhaid iddynt ddefnyddio peiriannau wedi eu pweru. Po fwyaf y perygl, y mwyaf cynhwysfawr y mae angen i'r hyfforddiant fod. Ar gyfer rhywfaint o waith risg uchel fel gyrru wagenni fforch godi, defnyddio llif gadwyn a gweithredu craen, rhoddir hyfforddiant fel arfer gan hyfforddwyr arbenigol. Cofiwch, gall pobl iau fod

yn eithaf medrus yn symud a thrin offer pŵer, ond gall fod ganddyn nhw ddiffyg profiad a safbwynt a gall fod angen eu goruchwylio i ddechrau.

Dylai fod gan bobl sy'n gwneud gwaith gwasanaethu ac atgyweirio ddigon o wybodaeth a hyfforddiant i'w galluogi i ddilyn arferion gwaith diogel.

8. BETH DDYLAI CYFLOGEION EI WNEUD I LEIHAU'R RISG?

8.1 Dylai cyflogeion sicrhau'r canlynol:

- eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r offer;
- eu bod yn gwybod sut i ddiffodd yr offer cyn iddynt ei ddechrau;
- bod yr holl amddiffyniadau yn eu lle a'r holl ddyfeisiadau amddiffynnol yn gweithio;
- bod yr ardal o amgylch yr offer yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag rhwystrau;
- eu bod yn gwisgo dillad amddiffynnol priodol, fel sbectol neu esgidiau diogelwch, lle bo angen.

8.2 Dylai cyflogeion:

- ddweud wrth y goruchwyliwr ar unwaith os ydyn nhw'n credu bod peiriant yn beryglus am nad yw'n gweithio'n iawn neu os oes unrhyw amddiffyniadau neu ddyfeisiadau amddiffynnol yn ddiffygiol;
- roi'r gorau i ddefnyddio'r peiriant nes bod y mater wedi cael ei wirio.

8.3 Ni ddylai cyflogai byth:

- ddefnyddio peiriant oni bai eu bod wedi eu hyfforddi ac yn gymwys i wneud hynny;
- ceisio glanhau peiriant sydd yn symud os gallai hyn fod yn beryglus – dylen nhw ei ddiffodd a thynnu'r plwg neu ei gloi i ffwrdd;
- defnyddio peiriant neu declyn sydd ag arwydd perygl ynghlwm wrtho. Dim ond person mewn awdurdod sydd yn fodlon bod y peiriant neu'r broses yn ddiogel ddylai dynnu arwyddion perygl;
- gwisgo cadwyni sydd yn hongian, dillad llac, menig, modrwyon neu wallt hir a allai gael ei ddal mewn darnau sy'n symud;

- tynnu sylw pobl sy'n defnyddio peiriannau, chwarae'r ffŵl neu gamddefnyddio'r offer yn fwriadol;
- galluogi teithwyr i gael eu cario ar gerbydau fel lorïau dadlwytho neu wagenni fforch godi oni bai bod y cerbyd wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd o'r fath.

9. BETH MAE'R RHAGOFALON YN EI OLYGU YN YMARFEROL?

9.1 canlynol yn enghreifftiau o ddamweiniau sydd yn cynnwys offer a ddefnyddir yn eang. Maen nhw'n dangos yr hyn mae modd ei wneud i leihau'r risg.

Ysgolion

Gall damweiniau ddigwydd yn sgil:

- ysgolion heb gael eu sefydlu a'u gosod yn ddiogel;
- dringo gyda llwyth;
- gorymestyn neu orgydbwyso;
- ysgolion yn cael eu defnyddio pan fyddai offer arall yn fwy diogel;
- defnyddio ysgolion sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael a/neu ddiffygiol.

Mae llawer o ddamweiniau yn cynnwys ysgolion yn digwydd yn ystod gwaith sy'n parhau am 30 munud neu lai. Defnyddir ysgolion yn aml ar gyfer gwaith byr pan fyddai wedi bod yn fwy diogel defnyddio offer arall, e.e., sgaffaldiau tŵr symudol. Gall defnyddio'r math cywir o offer wedi ei gynnal a'i gadw'n dda leihau'r perygl o ddamweiniau yn sylweddol.

Peiriannau Drilio

Gall damweiniau ddigwydd yn sgil:

- gwallt yn cael ei ddal mewn troellenni, crafangau neu offer;
- menig, modrwyon, dillad ac ati'n cael eu dal;
- effaith troelli ffyrnig oherwydd diffyg tynhau;
- naddion yn cael eu taflu i lygaid heb eu hamddiffyn.

Gosodwch amddiffyniad y me modd ei addasu o amgylch y grafanc a'r droellen a'i addasu i ddarparu'r amddiffyniad eithaf. Darparwch dynhawyr neu feis addas ar gyfer y darn o waith. Dylid hyfforddi gweithredwyr i wirio

amddiffyniadau a hysbysu ynghylch namau ar unwaith. Gall peiriannau drilio braich reiddiol achosi anafiadau difrifol iawn, felly mae'n rhaid darparu amddiffyniadau neu ddyfeisiadau baglu ar gyfer y daliwr a'r troellwr.

Peiriannau prosesu bwyd

Gall damweiniau ddigwydd yn sgil:

- bysedd yn dod i gysylltiad â llafnau sy'n troi, torwyr, cyllyll;
- cyswllt â rholiau;
- cyswllt â mecanweithiau bwydo.

Mae llawer o anafiadau'n cael eu hachosi pan fydd gweithredwyr neu weithwyr gwasanaeth gyda bwriadau da yn tynnu amddiffyniadau ac yn ceisio clirio rhwystrau gyda'r pŵer ymlaen. Dylen nhw ddiffodd y pŵer yn gyntaf. Dylid hyfforddi cyflogeion i ddilyn gweithdrefnau wedi eu sefydlu a systemau gwaith diogel a ddatblygwyd ar gyfer gweithredwyr a gweithwyr cynnal a chadw.

Glanhawyr pwysedd dŵr

Gall damweiniau ddigwydd yn sgil:

- sioc drydanol (angheuol yn aml);
- hylif yn cael ei chwistrellu drwy'r croen.

Rhannau gwannaf y glanhawyr hyn yw eu ceblau, felly lle y bo'n bosibl, dylid gosod glanhawyr mewn lle penodol a'u cysylltu â'r system drydanol yn barhaol. Gall namau trydanol i'r plwg, y cebl neu'r offer wneud y metel sydd wedi torri ar ddiwedd y biben hyblyg, neu gasin y peiriant, yn fyw. Bydd cyswllt yn arwain at sioc drydanol.

Dylid rhoi archwiliad gweledol rheolaidd i'r peiriannau, gan edrych am arwyddion namau neu niwed, a dylai'r defnyddiwr eu gwirio cyn eu defnyddio. Mae'n rhaid atgyweirio peiriannau diffygiol neu wallus cyn eu defnyddio. Dylid defnyddio dyfais cerrynt gweddilliol (torrwr cylched) yn y cyflenwad trydan i unrhyw lanhäwr nad yw mewn man sefydlog.

Gall ffrydiau pwysedd uchel orfodi hylif i mewn i'r croen neu'r llygaid. Gall hyn fod yn beryglus iawn, felly gall fod angen amddiffyniad addas i'r llygaid a dillad arbennig.

10. CYNGOR

10.1 Mae cyngor ynglŷn â gweithredu'r polisi yma ar gael gan y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY. Ffôn 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg /
You are welcome to communicate with us in Welsh

ATODIAD A

PERYGLON ARFEROL O OFFER GWAITH A RHAGOFALON I'W CYMRYD

Offer	Peryglon	Rhagofalon Arferol
Gilotin papur	Torri aelodau i ffwrdd (bysedd)	Gosod ar fwrdd sefydlog, golau da a chadw'r ardal waith yn lân ac yn daclus. Gosod amddiffyniad Rhoi cyfarwyddyd i'r cyflogeion adael y llafn am i lawr. Anfon y llafn i gael ei hogi yn achlysurol. Anfon y llafn i gael ei hogi yn achlysurol.
Peiriant llungopïo	Sioc drydanol Golau Osôn Llwch arlliw	Ni chaniateir y cyflogai i agor y peiriant (tasg cynnal a chadw), a chynnal a chadw gan beiriannydd allanol cymwys. Cynghorir y cyflogeion i gopïo gyda'r caead i lawr (rhybudd i'r perwyl hwnnw ar bob peiriant). Gosod y copïwyr mewn ardaloedd wedi eu hawyru'n dda. Defnyddio pecynnau wedi eu selio, cynghorir y cyflogeion i sychu gollyngiadau (nid eu brwsio/sugno).
Ystafell Peiriannau	Caethiwo, sioc drydanol ac ati.	Mynediad wedi ei gyfyngu i bersonau ag awdurdod, yn amodol ar hyfforddiant ar gyfer cymhwysedd mewn peirianneg adeiladu. Archwilio pob ystafell beiriannau a'i gwirio o ran goleuo (yn cynnwys golau mewn argyfwng), mynediad diogel, absenoldeb peryglon baglu, pob eitem wedi ei labelu'n gywir, ac ati, a'r holl waith cynnal a chadw wedi ei wneud yn unol â chyfarwyddiadau'r cyflenwr/gosodwr.
Sugnwr llwch	Sioc drydanol	Archwilio'r offer am niwed posibl ar ôl ei ddefnyddio bob tro gan y glanhäwr (wedi cael hyfforddiant a chyfarwyddyd) a'i brofi'n achlysurol gan drydanwyr cynnal a chadw.
Peiriannau lifft	Caethiwo, sioc drydanol	Ystafell peiriannu'r lifft wedi ei chloi, mynediad i beirianwyr cymwys yn unig sydd wedi nodi eu bod wedi gwneud asesiad risg o'u gwaith fel eu 'personau cymwys' eu hunain.
Boeler gwresogi	Arwynebau poeth Ffrwydrad Gollwng stêm / dŵr poeth	Boeler yn destun archwiliadau a chynnal a chadw rheolaidd ar gontract gan beirianwyr cymwys, mynediad i ystafell y boeler wedi ei gyfyngu i staff cynnal a chadw i wirio'r mesuryddion, dim cyswllt â'r offer ei hun.
Pecynnau	Trychiadau,	Crefftwyr medrus, eu hysbysu eu bod yn gyfrifol am wirio eu

Offer	Peryglon	Rhagofalon Arferol
offer gweithwyr cynnal a chadw	anafiadau i'r llygaid, ac ati.	pecynnau offer eu hunain bob mis a gweithredu i ymdrin â thyrnsgriwiau wedi treulio, cynion wedi niweidio ac ati.
Ysgolion	Cwympo o uchder Sioc drydanol	Pob ysgol wedi ei chlymu ac yn destun archwiliad wedi ei gofnodi bob 6 mis. Cyflogeion yn cael hyfforddiant i archwilio cyn bob defnydd. Hysbysir staff cynnal a chadw mai dim ond ysgolion pren/gwydr ffibr/wedi'u hinswleiddio sydd i gael eu defnyddio mewn ystafelloedd switshis trydanol ac ati.
Olwyn ffrithiol fach mewn siop cynnal a chadw	Anaf i'r llygaid	Dim ond cyflogeion ag awdurdod all ddefnyddio'r olwyn, a dim ond cyflogeion a benodir yn ysgrifenedig ar ôl hyfforddiant a ganiateir i osod olwyn newydd neu wisgo olwyn wedi ei gosod. Gosodir sgriniau i amddiffyn y llygaid ond mae angen i'r cyflogeion wisgo sbectol hefyd.
Peiriant torri gwair	Sioc drydanol Trychiad (ar y llafn)	Dim ond mewn tywydd sych y gellir defnyddio'r peiriant torri gwair, defnyddir torrwr cylched i ganfod foltedd yn gollwng. Cyflogeion i dynnu'r plwg cyn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw ac ati. Dylid gwisgo esgidiau diogelwch, hysbysir y cyflogeion ynghylch min y llafn a'i duedd o droi ar ôl cael ei ddiffodd.

ATODIAD B

RHESTR WIRIO AR GYFER PRYNU / LLOGI OFFER

Offer wedi ei werthuso i fod yn addas at y dibenion?	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Lleoliad priodol wedi ei nodi i leoli'r offer (neu ei gadw, os yw'n symudol)?	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Offer yn cynnwys llawlyfr, ac ati, ar ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw?	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Hyfforddiant yn angenrheidiol ar gyfer defnyddwyr? Os felly, sut caiff ei ddarparu? ……	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Trefniadau cynnal a chadw (contract neu yn fewnol)? Rhowch fanylion: ……..	Oes ☐ Nac oes ☐
Hyfforddiant yn angenrheidiol ar gyfer staff cynnal a chadw? Os felly, sut caiff ei ddarparu? …… ..	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Risgiau arbennig sy'n gysylltiedig â'r offer? Os felly, rhowch fanylion: …….	Oes ☐ Nac oes ☐
Gofynion arbennig diogelwch trydanol? Os felly, nodwch: …….	Ydy ☐ Nac ydy ☐
Gweithdrefnau argyfwng yn angenrheidiol? Os felly, rhowch fanylion: …….	Oes ☐ Nac oes ☐
Gweithdrefnau arolygu a phrofi yn angenrheidiol? Os felly, nodwch gan bwy a pha mor aml: …….	Oes ☐ Nac oes ☐

Cofnodion offer i gael eu cadw? Os felly, rhowch fanylion: …….	Oes ☐ Nac oes ☐
Enw: ……Dyddiad: ……..	

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/B	Oes	Nac oes
• A oes rhestr o offer gwaith wedi cael ei llunio?			
• A oes peryglon sy'n deillio o'r offer gwaith wedi cael eu nodi?			
• A oes mesurau rheoli ar waith i leihau'r risg?			
• A oes digon o wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant wedi cael eu rhoi i'r cyflogeion wrth ddefnyddio'r offer gwaith?			
• A oes gweithdrefnau safle wedi eu sefydlu wrth brynu/llogi offer?			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i gwblhau gan:_____ Wedi'i gadarnhau gan: _____
(Llofnod) (Llofnod)

Enw:_____ Enw:_____
(Llythrennau bras) (Llythrennau bras)

Swydd:_____ Swydd: _____

Dyddiad: _____ Dyddiad: _____